Gwnaeth y **Welfare, Ystradgynlais** hefyd gais am gymorth trac yn ystod y gwanwyn - ac unwaith eto roedd ganddynt ddiddordeb penodol mewn gweithio ar ganeuon ac alawon a oedd iddynt arwyddocad lleol. Y bwriad y tro yma yw addasu'r prosiect llwyddiannus "Alawon Fy Ngwlad", a sefydlwyd gan trac a Chyngor Sir Caerffili. Bydd plant o hyd at 10 ysgol leol - a'u hathrawon! - yn cymryd rhan mewn gweithdai, ac fe fyddant yn dysgu caneuon ac alawon sydd â chysylltiadau lleol. Mae'r prosiect yn cynnwys adnoddau i alluogi'r ysgolion i ddal at y gwaith da, yn ogystal â dathliad yn y **Welfare** ar ddiwedd y prosiect, lle y cynigir gyfle i rieni a'r gymuned gyfan ymuno â'r hwyl.

Yn **Sir Benfro**, mae trac wedi derbyn gwahoddiad oddiwrth yr Awdurdod Lleol i wynebu her o fath gwahanol. Yn 2004, cafodd Gwasanaeth Amgueddfeydd Sir Benfro ei gynnwys ar restr fer Gwobr Gulbenkian

Amgueddfa'r Flwyddyn, am ei waith gyda chymunedau Roma yn y sir. Mae'r gymuned cerddoriaeth draddodiadol Gymreig yn gwybod yn iawn bod teulu'r Woodiaid - Roma o ogledd Cymru - wedi chwarae rôl bwysig iawn wrth iddynt gadw ar gof traddodiadau'r delyn deires a chloccio. Yn ystod y gwanwyn, ceith blant Roma Sir Benfro gyfle i gydweithio gyda Robin Huw Bowen ac Huw Williams, fel y byddant yn gallu deall y traddodiad. Yn ogystal, 'dyn ni'n gobeithio dod ag Ida Kellarova, athrawes ganu a gweithredydd Roma o'r Weriniaeth Tsiec yma er mwyn iddi allu dysgu am y traddodiad canu. Bydd y gweithgareddau'n esblygu o'r gymuned Roma i'r gymuned ehangach, gyda digwyddiadau cyhoeddus yn cael eu trefnu yn Abergwaun yn y gwanwyn.

**Ar lefel Gymry-gyfan**, mae trac newydd wneud cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri am arian i brynu chwe phibgorn a dau grwth, i hyfforddi tiwtoriaid treftadaeth ac i gynnig gweithdai i ysgolion, grwpiau cymunedol, gwyliau a hyd yn oed y sector breifat. Bydd y pwyslais ar bwysigrwydd yr offerynnau o safbwynt treftadaeth, yn hytrach nag ar hyfforddi cerddorol. Os fydd y cais yn llwyddiannus, bydd trac am gyflogi o leiaf tri thiwtor rhan-amser, felly, cadwch lygad ar agor!

## Y Draffodaeth Fawr

Y llynedd, anfonodd ddarllenwyr trac eu syniadau atom ynglyn â beth oedd angen i'r sector - trac, cymdeithasau celfyddydau traddodiadol, gwyliau, clybiau, perfformwyr - ei wneud os roeddwn am weld cerddoriaeth draddodiadol yn mynd o nerth i nerth. Gydag arian oddiwrth CCC, mae trac am ddechrau'r broses trwy gynnal pedwar digwyddiad.

Mae **trefnwyr Gwyliau a Chlybiau**'n wynebu 'problemau' tebyg - deddfwriaeth, bwcio, marchnata - ac yn aml yn rhwydweithio'n anffurfiol. Bydd trac yn trefnu digwyddiad undydd gyda siaradwyr gwadd a thrafodaethau

ford-gron i weld a oes, mewn gwirionedd, nerth mewn undod.

Cafwyd ymateb brwdfrydig gan **gyhoeddwr Cerddoriaeth Draddodiadol** i gyfarfod cychwynnol yn y Llyfrgell Genedlaethol mis Chwefror diwethaf, ac y mae arian oddiwrth CCC yn golygu bod trac yn gallu trefnu cynhadledd undydd ar eu rhan i drafod her cyhoeddi ar gyfer marchnad fach, technoleg newydd, mentrau ar y cyd, ayyb.

Gofynnodd y **cerddorion traddodiadol** - rhai proffesiynol a'r rhai sydd â'r potensial i fod - a ymatebodd i'r ymgynghoriad am hyfforddiant, felly byddwn yn trefnu dau ddigwyddiad undydd, mewn cydweithrediad â Ffederasiwn Cerddoriaeth Cymru. Bydd y cyntaf yn delio â **'chreffft llwyfan'**, a dylai fod o fudd mawr i gerddorion sy'n dechrau eu gyrra 'ar y cylch'. Bydd yr ail yn ceisio gwella ansawdd **deunydd hyrwyddo** cerddorion, gan gynnwys cyhoeddusrwydd mewn print, dylunio CDau a defnyddio adnoddau ar-lein.

'Dyn ni wedi dweud hyn o'r blaen: mae'n debyg, ar hyn o bryd yma ymg Nghymru, bod cerddoriaeth draddodiadol yn tyfu'n gyflymach nag unrhyw gerddoriaeth arall. Mae angen i bawb fod yn rhan o'r Draffodaeth Fawr os 'dyn ni'n mynd i elwa o'r brwdfrydedd newydd yma. Peidiwch ag oedi - cysylltwch â trac i fod yn rhan ohono.

## Caneuon Conwy

Mae trac yn chwilio am ymchwildd i hel at ei gilydd - o'r archifau, o ddeunyddiau printiedig ac o ffynonellau eraill - casgliad o ganeuon sy'n berthnasol i Ddyffryn Conwy, ac i baratoi detholiad o'r alawon ar ffurf MP3. Rhaid gwneud y gwaith yn ystod mis Ionawr 2009. Gan y bydd llawer o'r deunydd yn Gymraeg, mae'r gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol. Ceir ragor o fanylion o swyddfa **trac**.

# On the horizon

Plans are afoot for local projects north and south  
... and for a series of events to develop Wales' folk scene

## Around Wales

Arts Council of Wales project funding once again means that trac can set up three community projects – this time in Llanrwst, Pembrokeshire and Ystradgynlais.

**Clwb Gwerin Conwy** is a new club established with an initial grant from the Welsh Language Board. It's a session-based group and came to us for help in finding and learning songs with a local connection. Arts Council funding means the Club will be able to work with a researcher, comb through archives and publications and put together a collection specifically for the Club's use. Because some of the members don't read music, the project includes recording the melody lines for easy learning. The club, with the help of their Menter Iaith, will be organising a noson lawen at the end of the project to involve the wider community and, hopefully, bring even more singers and players back to their tradition

**The Welfare, Ystradgynlais**, also approached trac for help – again with a particular interest in working on locally relevant songs and tunes. This time, the plan is to adapt the successful "Alawon Fy Ngwlad" project, set up by trac and Caerffili County Council. Up to 10 local schools – and their teachers! – will have workshops using songs and tunes with a local connection. The project includes resources for the schools to keep up the good work, as well as a final knees-up at The Welfare when parents and the community at large will have a chance to join in the fun.

In **Pembrokeshire**, trac has accepted an invitation from the Local Authority to take on a different sort of challenge. In 2004 Pembrokeshire Museum Services were short-listed for the prestigious Gulbenkian Prize for Museum of

the Year for its development of work with the Roma communities in the county. It's well-known within the Welsh traditional music community that the Roma family of the Woods in North Wales were significant in preserving the triple harp and clogging traditions. This spring will give Pembrokeshire's Roma children a chance to work with Robin Huw Bowen and Huw Williams to understand the tradition. We're also hoping to bring vocal coach and Roma activist, Ida Kelarova from the Czech Republic to learn about their vocal traditions. Activity will move beyond the Roma community with public events being organised in Fishguard.

**On an all-Wales level**, trac has just applied to the Heritage Fund of the National Lottery to buy six pibgorns and two crwths, to train heritage tutors and offer workshops to schools, community groups, festivals, and even the private sector. The emphasis will be on the instruments' *heritage* role, rather than on music instruction. If successful, trac will be looking to employ at least three part-time tutors – so watch this space.

## The Big Conversation

Last year, Ontrac readers sent us their ideas on what the sector – trac, traditional arts societies, festivals, clubs, performers – needed to deal with if traditional music was to go from strength to strength. ACW has funded trac to start the ball rolling with four events.

**Festival and Club organisers** face many similar 'issues' – legislation, bookings, marketing – and often network on a casual basis. trac will be organising a one-day event with guest

speakers and round-table discussions to see if there is, indeed, strength in unity.

**Trad Music Publishers** responded enthusiastically to an initial meeting at the National Library last February, and ACW funding means trac can now organise a one-day conference on their behalf to talk about the challenges of print in a small market, new technology, joint ventures, etc.

**Trad musicians** – professionals and potential professionals – responding to the consultation asked for training, so two day-events will be set up in co-operation with Welsh Music Foundation. One will deal with '**stagecraft**' and should be particularly useful for musicians just getting started on 'the circuit'. The other looks to improve the standards of musicians' **promotion materials**, including print publicity, CD design and use of online resources.

We've said it before: traditional music is arguably the fastest growing music in Wales today. We need to have The Big Conversation between all participants if we're going to take advantage of this new enthusiasm. Contact trac soon to be part of it.

**Caneuon Conwy**  
trac is looking for a  
**researcher** to compile - from  
archives, print, and other  
resources – a collection of songs  
relevant to the Conwy Valley, and  
to prepare MP3s of a selection of  
the tunes. The work will need to  
be undertaken in January 2009. As  
many of the sources will be Welsh  
language, an ability to work in  
Welsh will be necessary. More  
details from the trac office.

# Clera - haf i'w gofio!

Mae Clera – a'r Glerorfa yn benodol – wedi cael haf i'w gofio. Ym mis Gorffennaf, fe wasgodd dros 50 o aelodau ar lwyfan Sesiwn Fawr Dolgellau ar gyfer perfformiad tri chwarter awr. Bythefnos yn ddiweddarach fe ymddangosodd y Glerorfa dair gwaith yng Ngŵyl Ryng-Geltaidd An Oriant, y tro cyntaf yng nghyngerdd gala agoriadol yr ŵyl, yr ail ym Mhafiliwn Cymru, a'r trydydd yng nghanolfan yr Espace Marine. (Bu ymddangosiad olaf 2008 yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy fel rhan o'r ŵyl gerdd ryngwladol – braint arbennig o gofio'r enwau mawr oedd yn ymddangos yno, pobl fel Llyr Williams, Julian Lloyd Webber a Ffilarmonig Lerpwl).

Mae cael sylw mawr gan y wasg a'r cyfryngau yn beth anarferol yng Nghymru, ac felly roedd yn bleser darllen penawdau papurau newydd fel "Le Pays de Galles brille à l'interceltique". Disgrifiwyd y cyngerdd olaf gan Lywydd yr Wyl, Lisardo Lombardia, fel "magnifique" a daeth yr Is-Lywydd, Bernard le Meur, i gefn y llwyfan ar ôl perfformiad y Glerorfa gan ddweud fod hwn yn un o'r perfformiadau mwyaf cofiadwy iddo ef yn holl hanes yr ŵyl! Yng nghylchgrawn *Golwg*, disgrifiwyd y Glerorfa gan Eluned Haf, pennaeth Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, fel "fffenomen" gan ychwanegu ei bod yn awr angen buddsoddiad.

Hawdd y gall clod fel hyn fynd i'r pen,

ond mae'n sicr wedi rhoi hwb enfawr i bawb ac wedi rhoi hyder i ni symud ymlaen. Y teimlad yw ein bod o'r diwedd yn cyrraedd rhywle. Wrth gwrs, mwya'n byd ydi'r llwyddiant, mwya'n y byd o bwysau sydd i gynnal y momentwm. Does dim amheuaeth fod gan Clera, a cherddoriaeth draddodiadol yn gyffredinol, gyfle enfawr yn awr, y mwyaf ers amser maith. Byddai gwastraffu'r cyfle hwnnw yn bechod. Rhaid cadw'r traed ar y ddaear a meddwl yn ddwys sut yn union y gellir cynnal y Glerorfa, nid yn y flwyddyn sydd i ddod yn unig, ond ymhellach i'r dyfodol hefyd. Ond o leiaf gallwn deimlo'n hapus fod y gwaith o ennill calonnau'r siniciaid yma yng Nghymru wedi cychwyn yn y ffordd orau bosibl!

*Arfon Gwilym*

## Nodyn oddi wrth Live Music Nowr Cymru

gan Gillian Green (Cyfarwyddwr Cymru)



Jamie Smith gyda phlant  
Ysgol Arbennig Ty Gwyn, Caerdydd

Ysgrifennaf hwn toc wedi i mi ddychwelyd o gartref preswyl Penylan House yng Nghaerdydd lle bues yn gwrandao ar Jamie Smith a Calum Stewart yn perfformio. Roedd hwn yn rhan o daith o gyngherddau wedi'u trefnu iddynt gan Live Music Now. Yn gynwysiedig yn y daith roedd hefyd berfformiadau mewn ysgolion arbennig yng Ngogledd a De Cymru a chyngherddau yng Nghanolfan Tŷ Newydd Llanystumdwy a Glan yr Afon yng Nghasnewydd.

Cynllun a sefydlwyd gan y diweddar Yehudi Menuhin dros 30 mlynedd yn

ol yw Live Music Now ac erbyn rwan dyma'r rhaglen mwyaf o'i bath yn y DU Dechreuwyd y gangen yng Nghymru ym 1990 ac ers hynny trefnwyd bron iawn i 4,000 o berfformiadau ledled y Cymru. Mae nifer fawr o gerddorion sydd yn perfformio

ystod eang o gerddoriaeth mewn gwahanol ddulliau wedi elwa'n fawr o fod yn rhan o'r cynllun gan gynnwys Oliver Wilson-Dickson, Ed Jay, Luke Goss, Gwenan Gibbard, Fine Friday a'r Wrigley Sisters i enwi dim ond rhai o'r cerddorion gwerin sydd wedi perfformio ar gyfer LMN yma yng Nghymru.

Felly os ydych yn gerddor ar ddechrau eich gyrfa (offerynnwyr dan 27 a chantorion dan 30 mlwydd oed) ac eisiau rhannu eich cerddoriaeth gydag amrywiaeth o wahanol gynulleidfaoedd, cael tâl o ffi a chostau

am wneud hynny, pam na wnewch chi geisio am wrandawriad ar gyfer Live Music Now? Mae'r gwrandawriadau yn digwydd ar adegau gwahanol drwy'r flwyddyn mewn lleoliadau dros y DU a'r swyddfa yng Nghymru yw'r Swyddfa Gwrandawriadau ar gyfer y cynllun i gyd.

Fe adawai'r geiriau olaf i Harriet Earis (telyn geltaidd) sydd bellach wedi rhoi llawer mwy na 100 o berfformiadau ar gyfer LMN ledled y DU

"Mae bob amser yn fy ysbrydoli ac yn brofiad gwefreiddiol i fod yn rhan o LMN. Dwi wedi profi cymaint o engreiffiau o sut ma cerddoriaeth efo'r pwr i codi godi ysbryd rhywun o'r dyfnderoedd tywyllaf. Fel perfformwraig dwi wedi dysgu cymaint ac ni fydd yr un sefyllfa berfformio yn codi ofn arnai nawr! Buaswn yn argymhell LMN i unrhyw gerddor ifanc sydd eisio cael profiad perfformio a gwneud rhywbeth gwerth chweil a buddiol ar yr un pryd. Cynllun gwych."

Am ragor o wybodaeth gweler [www.livemusicnow.org](http://www.livemusicnow.org), ebostiwcwales@livemusicnow.org neu ffoniwch 029 20 554040.

# Clera - what a summer!

What a summer it's been for Clera, and for the Clerorfa in particular. In July, over 50 members squeezed on to the Sesiwn Fawr stage in Dolgellau for a 45 minute performance. Two weeks later, Clerorfa made three appearances in the Lorient Inter Celtic Festival in Lorient, the first in the Opening Gala Concert, the second in the Welsh Pavilion, and the third in the Espace Marine venue. (The last performance for 2008 was in the St Asaph Cathedral as part of the North Wales International Music Festival, a very special privilege considering all the other famous names appearing: Llyr Williams, Julian Lloyd Webber, Liverpool Philharmonic, etc.)

Unaccustomed as we are to press and media attention in Wales, newspaper

headings such as "Le Pays de Galles brille à l'interceltique" made happy reading. The festival's president, Lisardo Lombardia, described the Espace Marine concert as "magnifique" and the Vice-President, Bernard le Meur made a rare backstage visit after the Clerorfa performance, declaring that, to him, this was one of the most memorable performances in the festival's history! In the Welsh language weekly *Go!wg*, the head of Wales Arts International, Eluned Haf, referred to the Clerorfa as a "phenomenon" and added that it now needed an "investment".

Praise such as this can be a little overwhelming, but it has certainly given everyone an enormous boost and has given us confidence to move forward.

There's a feeling that at last we're getting somewhere. The greater the success, of course, the greater the pressure to maintain the momentum. There's no doubt at all that Clera, and Welsh traditional music in general, now has the greatest opportunity for a long, long time. We musn't waste that opportunity. We have to keep our feet firmly on the ground and think long and hard about how exactly the Clerorfa in particular can be sustained, not just for the next year or so but much further ahead as well. But at least we can all feel happy that the great task of persuading the cynics here in Wales has got off to a really good start!

*Arfon Gwilym*

## A Note from Live Music Now by Wales Director Gillian Green

I write this having just been to hear Jamie Smith and Calum Stewart give a wonderful performance at Penylan House Residential Home in Cardiff. The concert was part of a week long tour organised for Jamie and Calum by Live Music Now which included performances in special schools in north and south Wales, a performance at Ty Newydd and a public concert at the Riverfront Centre in Newport.

Founded by the late Yehudi Menuhin over 30 years ago Live Music Now is by now the largest music outreach programme of its kind in the UK. The branch in Wales was set up in 1990 and since then almost 4,000 LMN performances have taken place throughout Wales. Numerous musicians performing in a variety of styles and genres have benefited enormously from being a part of the scheme including Oliver Wilson-Dickson, Ed Jay, Luke Goss, Gwenan Gibbard, Fine Friday and the Wrigley Sisters to name but a few of the folk musicians who have performed for LMN in Wales.

So if you are a musician at the start of your career (instrumentalists under 27, singers under the age of 30) wanting to share your music with a variety of different audiences, getting paid a fee and expenses for doing so, why not audition for Live Music Now? Auditions take place at different times of the year throughout the UK and the Wales office also operates as the Auditions Office for the UK.

I leave the last few words to Harriet Earis, the celtic harpist, who has given well over 100 performances for LMN throughout the UK:

"It's constantly inspiring and extremely moving to be involved with LMN. I've seen so many examples of how music has the power to lift someone's spirits from the darkest of places. As a performer I've learnt a huge amount and no performance situation can daunt me now! I would recommend LMN to any young musician who wants to gain performance experience and do something infinitely worthwhile at the same time. It's a phenomenal scheme."



*Jamie Smith and Calum Stewart bringing music to Ty Gwyn Special School in Cardiff.*

For further information please visit [www.livemusicnow.org](http://www.livemusicnow.org) email [wales@livemusicnow.org](mailto:wales@livemusicnow.org) or phone 029 20 554040.

# hoffwn i chi wybod

## ... am alawon crwth

meddai Cass Meurig



Cass yn Lorient  
gyda Nial Cain

Offeryn canoloesol yw'r crwth, a ddiflanodd o Gymru tua diwedd y ddeunawfed ganrif. Dim ond yn weddol ddiweddar mae wedi ail-ennill ei statws fel offeryn cerdd byw, gyda efallai rhyw ugain o chwaraewyr erbyn hyn. Mae'r broses atgyfodi offeryn marw yn un ddiddorol ac yn gosod dipyn o her, nid yn unig o ran dysgu sut i'w chwarae, ond hefyd o ran beth i'w chwarae. Does dim llyfr alawon crwth fel petai wedi goroesi - os buodd un erioed. Felly mae pob chwaraewr wedi dod a'i ateb ei hun, rhai yn canolbwyntio ar repertoire canoloesol y crwth, rhai ar alawon gwerin, eraill yn ei ddefnyddio ar gyfer cyfeilio. Nid oes neb yn gosod y rheolau – a dyna ran o'r apêl.

Yn gyntaf rhaid dysgu sut i chwarae'r offeryn, a dod i ddeall pa fath o alawon sydd yn debygol o weithio arno. Dywedir yn aml (gan ffidlwyr yn bennaf) mai offeryn cyntefig, cyfyngedig yw'r crwth. Beth maen nhw'n yn ei olygu yw nad yw'n gwneud beth mae'r ffidil yn ei wneud, a hynny ar y cynnig cyntaf. Mae'r crwth yn offeryn soffistigedig ac yn llawn mynegiant; ond rhaid wrth agwedd ostyngedig, gan ddisgwyl ymarfer am rai blynyddoedd cyn iddo ddatgelu ei gyfrinachau. Rhaid deall hefyd bod y crwth yn chwarae cerddoriaeth crwth, fel mae'r pibau yn chwarae alawon pibau a'r llais yn canu caneuon.

Mae gan y crwth rhyw wythawd a hanner o fewn cyrraedd weddol hawdd o ran melodi, gyda bwrddwn a chordiau cyfoethog islaw ac uwchben hynny. Gyda chwe thant a phont gwbl wastad (sydd yn golygu gallwch chwarae'r chwech i gyd gyda'r bwa ar yr un pryd), mae'n llawn potensial harmonig, yn

ogystal ag effeithiau rhythmig drwy blycio tannau gyda'r fawd chwith. Rhaid symud y llaw chwith i fyny'r byseddfwrdd i gyrraedd y nodau uwch, felly gwell dewis alawon nad ydynt â chwmpas rhy eang ac (yn fwy pwysig) nad ydynt yn neidio o gwmpas gormod. Anghofiwch y jigs a'r rîls; rhaid meddwl yn nhermau harmoni a bwrddwn.

Lle gallwn gael hyd i alawon crwth? Gan ddechrau yn yr oesoedd canol (gyda diolch i Bethan Miles am ei hymchwil drwyadl), mae gennym restrau o enwau ceinciau crwth, ac mae rhai ohonynt wedi eu cofnodi mewn tabl nodiant yn llawysgrif y telynor Robert ap Huw, gopiwyd ym 1613. Cerddoriaeth hynafol, estron iawn i ni yw hon, ond mae rhai darnau yn swynol ar y crwth. O'r 16eg a'r 17eg ganrif mae gennym ddogfen a cherdd sydd yn rhestru alawon chwaraewyd gan grythorion. Alawon poblogaidd y dydd oeddent ar y cyfan, rhai wedi goroesi mewn llawysgrifau diweddarach megis 'Pepper's Black' (neu 'Sbonc bogel') a 'Nutmegs a Sinsir' (neu 'Breuddwyd y frenhines'); mae eraill wedi hen ddiflannu. Hefyd mae dwy alaw â chrythor yn y teitl, sef 'Cainc Gruffudd Rowland y crythor' a 'Dugan y crythor du', y ddwy wedi eu cofnodi yn llawysgrif Morris Edward, y ffidlwr o Fôn.

Wedyn rhaid chwilio am alawon sy'n debygol o fod yn addas. Does dim prinder deunydd – mae canoedd o alawon wedi goroesi mewn llyfrau a llawysgrifau o'r ddeunawfed ganrif ymlaen, yn ogystal â'r traddodiad llafar cyfoes, wrth gwrs. Mae caneuon yn aml yn gweithio'n well nag alawon dawns, yn enwedig emynau a charolau plygain gan eu bod wedi eu cynllunio gyda harmoni cyfoethog mewn golwg. Ond mae modd addasu ac amrywio alawon dawns hefyd, gan symud nodau, newid rhythmau neu ail-lunio ambell frawddeg er mwyn ffitio o fewn chwmpas y crwth a gwneud yn fawr o'i holl harmoniau. Yn hyn o beth mae modd dysgu llawer gan chwaraewyr offerynnau â meddylfryd tebyg, megis y pibau cwd, y hyrdigyrdi ac offerynnau o'r un teulu â'r crwth fel y hiiu kannel yn Estonia.

Posibiliad arall yw cyfansoddi cerddoriaeth newydd. Mae hyn yn gam rhwydd mewn ffordd; gallwch ddweud bod elfen o gyfansoddi yn gorfod digwydd pob tro mae rhywun gosod alaw ar y crwth, gan bod rhaid addasu ac amrywio a dewis harmoniau ac effeithiau rhythmig. Cryfder yr adfywiad bach ym mywyd y crwth ar hyn o bryd yw'r elfen greadigol hon; heb ddisgwyliadau a phwysau traddodiad, mae rhyddid llwyr i greu.



## ... about crwth tunes

says Cass Meurig



The crwth is a medieval instrument, which disappeared from Wales around the end of the eighteenth century. It has only fairly recently been reclaimed as a contemporary musical instrument, with perhaps around twenty players by now. Resurrecting a dead instrument is an interesting challenge, not only in terms of learning how to play but also in terms of what to play. No book of crwth tunes as such has survived, if indeed there ever was one. Every player has had to work out his own solution to the problem, some concentrating on the medieval repertoire, others on folk tunes, and others on using the crwth as accompaniment. There is nobody to set the rules – which is part of the appeal.

First one must learn how to play the crwth, and understand what sort of tunes are likely to work on it. It is often said (mainly by fiddlers) that the crwth is a limited, primitive instrument. They mean that it doesn't do what a fiddle does, preferably at the first attempt. The crwth is a sophisticated and highly expressive instrument; but it requires a degree of humility and several years of practice before revealing its secrets. Crwths, in fact, play crwth music, in much the same way as pipes play pipe tunes and voices sing songs.

As far as melody is concerned, the crwth has around an octave and a half within reasonably easy reach, with rich drones and chords above and below. With six strings and a completely flat bridge (which means one can bow all six at the same time), it is full of harmonic potential, and also has rhythmic special effects by plucking strings with the left thumb. The upper notes are reached by moving the left hand up the fingerboard, which means it makes sense to choose tunes of a fairly narrow compass which (more importantly) don't jump around too much. Forget the jigs and reels, and think in terms of harmony and drones.

Where can we find crwth tunes? Starting in the middle ages (with thanks to Bethan Miles for her thorough research) we have lists of the names of crwth pieces, some of which have survived in tablature in the manuscript of the harper Robert ap Huw, copied in 1613. This is ancient music, strange to our ears; but some pieces work hauntingly well on the crwth. From the sixteenth and seventeenth centuries we have a document and a poem listing tunes which were played by crwth players. These were the popular tunes of the day, on the whole, some of which have survived in later manuscripts such as Pepper's Black (aka Sbonc Bogel) and Nutmegs and Ginger (aka

Breuddwyd y Frenhines); others have long since disappeared. There are also two tunes with crwth players in the title: 'Cainc Gruffudd Rowland y crythor' ('Griffith Rowland the crwth player's tune') and 'Dugan y crythor du' ('The black-haired crwth player'), both of which are notated in the manuscript of Anglesey fiddler Morris Edward.

Then begins the search for tunes which might work on the crwth. There is certainly no shortage of material – hundreds of tunes have survived in books and manuscripts from the eighteenth century onwards, as well as the modern oral tradition, of course. Songs often work better than dance tunes, particularly hymns and plygain carols since they were written with full harmonies in mind. But one can also adapt and vary dance tunes by moving notes, changing rhythms or rewriting certain phrases in order to fit within the range of the crwth and make the most of its harmonies. In this respect much can be learned from players of instruments with a similar approach, including the bagpipes, hurdygurdy and instruments related to the crwth such as the hiiu kannel in Estonia.

Another possibility is to compose new music. In a way, this is an easy step to take; one could say that an element of composition has to happen every time one sets a tune to the crwth, in the adaptation, variation and choice of harmonies and rhythmic effects. The strength of the present small revival in crwth playing is this creative element; without the weight and expectations of tradition, there is true freedom to create.



# Ysgwyd y Llwych

I'r cerddor traddodiadol, mae dod ar draws hen alaw 'newydd' fel taro ar olew. Wrth i Ontrac mynd i'r brintydd, mae trac - mewn cydweithrediad â Chyngor Celfyddydau Cymru a Chanolfan Mileniwm Cymru - yn darparu am ddiwyddiad sy'n uno tri heliwr trysor cerddorol llwyddiannus o Gymru, Llydaw a Chernyw.

Gyda Cass Meurig, cerddor a hanesyddes gerddorieth draddodiadol Gymreig, rydym wedi gwahoddi

**Mike O'Connor**, sy wedi chwarae rôl allweddol wrth iddo ddarganfod llawysgrifau cerddoriaeth offerynnol Cernyweg mewn casgliadau preifat a chyhoeddus, a'i hail-gyflwyno i'r cyhoedd mewn gweithdai a thrwy eu cyhoeddi a'u perfformio. Mae'n perfformio'n reolaidd fel aelod o'r "Cornish Lads" ond yn dal i fod wrthi'n ymchwilio; yn ddiweddar daeth ar draws casgliadau pellach o gerddoriaeth sy'n dyddio'n ôl i'r 17eg ganrif;



a  
**Loeiz Er Bras**, ysgrifennydd Dastum, mudiad sy'n diogelu ac yn hyrwyddo Treftadaeth Lydewig, a llywydd Dastum Bro-Ereg. Mae ef ei hun yn arbenigo yn y traddodiad llafar, yn canu caneuon traddodiadol Llydaw ac wedi cyhoeddi dwy gyfrol o gerddoriaeth Lydewig o ddechrau'r 20 fed ganrif.



Bydd pob siaradwr yn disgrifio peth o'u hanturiaethau a'u profiadau wrth iddynt ymchwilio i, a pherfformio eu perllau 'newydd', ac yna, wedi iddynt 'newid hetiau' byddant yn cyflwyno rhai o'u darganfyddiadau.

Darllenwch rifyn nesa Ontrac i gael yr holl hanes!

# Shaking Off The Dust

To the traditional musician, finding a 'new' old tune is like striking gold. As Ontrac goes to press, trac - in co-operation with Arts Council of Wales and the Wales Millennium Centre - is preparing for an event which brings together three successful musical treasure hunters from Wales, Brittany and Cornwall.

As well as Cass Meurig, musician and music historian of traditional Welsh music, we have invited

**Mike O'Connor**, a key figure in unearthing Cornish manuscripts of instrumental music in both private and public collections and bringing them back to popular use through workshops, publications and performances.

He performs regularly as a member of "Cornish Lads" but is still on the research trail, having recently discovered further caches of music going back to the 17th century; and

**Loeiz Er Bras**, Secretary of Dastum, the association for the preservation and promotion of Breton Heritage, and President of Dastum Bro-Ereg. He is a specialist in oral tradition, sings traditional Breton songs and has published two collections of early 20th Century Breton music.

Each speaker will describe some of their adventures and experiences in researching and performing 'new' finds and, switching to their 'performance' hats, will demonstrate some of their discoveries.

See the next issue of Ontrac for the full story!

## Ontrac

Ontrac yw cylchgrawn **trac: traddodiadau cerdd cymru / music traditions wales**, corff datblygu traddodiadau gwerin Cymru.

Mae pob erthygl ar gael mewn print bras un ai ar bapur neu yn electroneg.

Os oes ganddoch chi newyddion, barn neu wybodaeth o ddiddordeb i bawb sy'n ymwneud â cherddoriaeth draddodiadol yng Nghymru, cysylltwch â ni:

trac  
Blwch Post 428  
Caerdydd CF11 1DP  
029 20 318863 / 07811 955592  
trac@trac-cymru.org  
www.trac-cymru.org

dyfodol y traddodiad a  
thraddodiad y dyfodol



## Ontrac

Ontrac is the magazine of **trac: traddodiadau cerdd cymru / music traditions wales**, the folk development organisation for Wales.

All articles are available in large print either on paper or electronically.

If you have news, views, or information of interest to the traditional music community in Wales, please contact us:

trac  
PO Box No. 428  
Cardiff CF11 1DP  
029 20 318863 / 07811 955592  
trac@trac-cymru.org  
www.trac-cymru.org

the future of the tradition  
& the tradition of the future

Noddir gan  
Lywodraeth Cynulliad Cymru  
Sponsored by  
Welsh Assembly Government



llun clawr /  
cover photo:  
Ouest France



CEFNOGI CREADIGRWYDD  
CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU  
THE ARTS COUNCIL OF WALES  
SUPPORTING CREATIVITY